



Disgrifiad o'r swydd

Teitl Swydd:	Swyddog Cymorth Cyfathrebiadau Digidol
Yn atebol i'r:	Rheolwr Cyfathrebu
Grŵp/Grwpiau:	Llais, Systemau
Gweithgareddau:	Cyfathrebiadau, Aelodau, Cynhyrchion Digidol
Cyflog:	Gradd B CGGC: £24,473 yn cynyddu i £26,072 pro rata y flwyddyn ar ôl cwblhau chwe mis o gyfnod prawf yn llwyddiannus
Lleoliad:	Mae gan CGGC bolisi gweithio hybrid a hyblyg ar waith, sy'n golygu y gall pobl weithio cyfran o'u hamser yn ein swyddfeydd neu o bell (gan gynnwys gartref). Rydyn ni'n fudiad Cymru gyfan gyda swyddfeydd yn Aberystwyth, Caerdydd a'r Rhyl y gall staff eu defnyddio. Bydd angen mynychu rhai digwyddiadau staff a threfniadau gwaith penodol yn ein swyddfeydd
Gwyliau Blynyddol:	25 diwrnod y flwyddyn, ynghyd â gwyliau banc, a phum diwrnod drwy ddisgresiwn (pro rata)
Teithio:	Ffafir defnyddio trafniadaeth gyhoeddus; pan na fydd hyn yn gyfleus, caiff staff ddefnyddio'u cerbydau eu hunain neu ddefnyddio'r system rhentu ceir. Telir

cyfraddau fesul milltir yn unol â'r cyfraddau a argymhellir gan Gyllid y Wlad

Oriau: 35 awr yr wythnos; yn hyblyg.

Pensiwn: Bydd 9% o gyflog blynyddol y swydd yn cyfrannu at gynllun pensiwn cymeradwy CGGC.

Sgiliau iaith: Mae rhuglder amlwg yn y Gymraeg, gan gynnwys siarad, gwrando, deall, darllen ac ysgrifennu yn hanfodol i'r swydd.

DIBEN

Fel swyddog cymorth yn ein tîm marchnata a chyfathrebu dynamig, byddwch chi'n ein helpu i fanteisio i'r eithaf ar ein sianeli digidol a chymdeithasol, gan eu cadw'n gyfredol ac yn llawn cynnwys o ansawdd uchel sy'n denu'r llygad. Byddwch chi hefyd yn sicrhau bod cyfathrebiadau, gan gynnwys cyhoeddiadau a chynnwys ar-lein, yn gyson ar draws y mudiad.

Byddwch chi hefyd yn cyfrannu at ein gwefan, gan sicrhau bod y cynnwys wedi'i optimeiddio i yrru ymdrechion i gysylltu â defnyddwyr a'u cadw.

PRIF DDYLETSWYDDAU

- Cynhyrchu cynnwys ysgrifenedig a gweledol sy'n denu'r llygad ar gyfer platfformau cyfryngau cymdeithasol lluosog gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol adnoddau
- Cynorthwyo i ddatblygu strategaethau ac ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol ar gyfer gweithgareddau corfforaethol, rhaglenni a phrosiectau
- Rheoli'r holl sianeli cyfryngau digidol o ddydd i ddydd, cynllunio a threfnu cynnwys diddorol ac effeithiol sydd wedi'i gynllunio i hybu aelodaeth a thyfu cynulleidfaoedd

- Ymgysylltu â chynulleidfaoedd ar-lein a datblygu cydberthnasau â nhw, gan ysgogi trafodaethau ynghylch materion y sector gwirfoddol ac ymhél ag aelodau, partneriaid a dylanwadwyr
- Monitro cyfathrebiadau digidol CGGC yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cytunedig. Casglu dadansoddiadau misol i asesu a yw'r gweithgarwch digidol ar y trywydd iawn i fodloni Dangosyddion Perfformiad Allweddol ac amcanion ymgyrch
- Rhoi cymorth golygyddol a chymorth gyda chyfathrebiadau digidol i dimau eraill CGGC
- Ymddwyn fel gwarcheidwad brand er mwyn sicrhau bod llais eich brand yn gyson
- Nodi tueddiadau a mewnwediadau, gwerthuso technolegau sy'n dod i'r amlwg, ac optimeiddio perfformiad sianeli digidol CGGC

Nid yw hon yn rhestr gyflawn. Efallai y bydd gofyn i ddeiliad y swydd gyflawni dyletswyddau ychwanegol o dro i dro neu yn ôl y gofyn, wrth i anghenion y gwasanaeth neu'r mudiad ddatblygu.

MANYLEB YR UNIGOLYN

Mae'r canlynol yn **sgiliau hanfodol** (ni fydd ymgeiswyr nad ydynt yn gallu arddangos y rhain yn cael eu rhoi ar y rhestr fer):

1. Rhuglder amlwg yn y Gymraeg, gan gynnwys siarad, gwranddo, deall a darllen ac ysgrifennu
2. Gallu creu cynnwys amlgyfrwng, gyda sgiliau dylunio a gosod da, a chyda'r gallu a'r ymwybyddiaeth i weithio i ganllawiau'r brand
3. Sgiliau cyfathrebu ardderchog, yn ysgrifenedig ac ar lafar, gyda thystiolaeth o allu gweithio o dan bwysau a chadw at ddyddiadau cau tynn
4. Sgiliau TG cyffredinol ardderchog, gan gynnwys Microsoft Office
5. Gallu profi a threialu dulliau gweithredu newydd yn ogystal ag asesu'r potensial dros ddefnyddio platfformau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg

6. Trefnus tu hwnt ac yn gallu rheoli ei lwyth gwaith ei hun a rhedeg prosiectau integredig neu arwahanol, wrth weithio'n effeithiol fel rhan o dîm
7. Sgiliau rhyngpersonol da, gan gynnwys y gallu i weithio gyda rhanddeiliaid gwahanol a chydweithio i ddatrys problemau
8. Ymrwymiad i hyrwyddo diwylliant lle y caiff gwahaniaethu ei ddifa a chynnig amgylchedd o gyfle cyfartal lle y mae pawb yn cydnabod y cyfraniad positif y gall gweithlu a chymuned amrywiol ei wneud

Mae'r canlynol yn **sgiliau allweddol** (mae angen y sgiliau hyn ar gyfer y rôl, ond gellid eu hennill yn y swydd neu drwy gael hyfforddiant o fewn 6 mis i'r penodiad):

1. Gallu arwain gwaith ar gynllunio a chyflawni ymgyrchoedd amlgyfrwng
2. Profiad o ddefnyddio systemau rheoli cynnwys gwefannau (fel WordPress) a dealltwriaeth o Ganllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We ac o optimeiddio peiriannau chwilio (SEO)
3. Sgiliau golygu fideos a ffotograffau sylfaenol